

Urdd Gobaith Cymru www.urdd.cymru

Mae Urdd Gobaith Cymru yn fudiad ieuenctid gwirfoddol, gyda'r nod i sicrhau cyfle, trwy gyfrwng y Gymraeg i holl ieuenctid Cymru ddatblygu'r unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

Mae'r Urdd yn fudiad sy'n parhau i dyfu ac arloesi, ac yn un o'r cyflogwyr mwyaf sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg o fewn y drydedd sector yng Nghymru heddiw. Fe sefydlwyd yn 1922, ac erbyn heddiw cyflogir dros 300 o staff, bron 60,000 o aelodau, 10,000 o wirfoddolwyr a throsiant o £15M.

Mae'r datganiad isod o'r sefyllfa heddiw ar effaith costau byw cynyddol ar y mudiad ynghyd â'r gweithredoedd sydd gan yr Urdd i leddfu'r effaith i'n haelodau a'u gweithlu. Mae'r Uwch Dim Rheoli yn monitro'r sefyllfa yn gyson.

Nid ydym am i'r ymateb hwn i fod yn gyhoeddus.

Pa effeithiau y mae costau byw cynyddol wedi'u cael ar eich sefydliad a'ch sector hyd yn hyn?

Ariannol – cynnydd i'r costau

Rydym yn gweld cynnydd yn ein costau, sydd yn rhoi pwysau ar ein cyllidebau a'n gallu i ddarparu gweithgareddau a chyfnodau preswyl a theithiau fforddiadwy.

- Cynnydd o 11.3% i gostau gosod maes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, £1.5m, o'i gymharu gyda'r gyllideb am yr un costau yn 2020 o £1,258,000.
- Cynnydd o 19% yn y costau prynu cynhwysion a bwyd ar gyfer cyrsiau preswyl yn ein gweryslyoedd.
- Gwelir cynnydd yn y costau lleoliadau ar gyfer digwyddiadau lleol e.e. cyfleusterau chwaraeon, neuaddau a chanolfannau ar gyfer Eisteddfod, cyfleusterau i gynnal clybiau wythnosol. Ar gyfer un digwyddiad yng Ngwanwyn 2023 rydym wedi derbyn amcanbris o £400 am ddiwrnod o ddefnydd. Wrth brisio ein teithiau haf, mae nifer o'r atyniadau wedi codi prisiau mynediad.
- Colli incwm y gweryslyoedd wrth i rai ysgolion canslo eu cyfnodau preswyl, neu yn lleihau eu cyfnod preswyl. Nifer o'r ysgolion yma â chanran uchel o ddisgyblion sy'n derbyn prydiau ysgol am ddim. Mae'r 4 ysgol sydd wedi canslo yn y pythefnos diwethaf â dros 14% o'u disgyblion ar brydiau ysgol am ddim. Un ohonynt a 40% o'u disgyblion ar brydiau bwyd am ddim. Mae'r cynnydd yn y costau byw yn erydu gwerth y grantiau rydym yn eu derbyn.
- Mae ein swyddogion cymunedol yn rhagweld cynnydd sylweddol yn y costau llogi lleoliadau i gynnal gweithgareddau, digwyddiadau ac eisteddfodau cylch a rhanbarth. Maent yn bryderus y bydd yr ysgolion a lleoliadau Eisteddfodau yn cynyddu eu prisiau yn enfawr.

- Trafnidiaeth cludo. Cost Bws o Went i Langrannog yn arferol yn £800, eleni mae yn £1300. Cynnydd o 63%. Nid yw'r cwmnïau bysus yn fodlon iawn i gytuno prisiau ar gyfer teithiau ymhen 6 mis.
- Fel mudiad, a gofal dros y staff, rydym yn adolygu effaith chwyddiant a chostau byw ar rheiny sydd ar ein graddfeydd cyflog isaf. Nid yw cyflogau'r 3ydd sector yn gystadleuol i gymharu â sectorau eraill ac rydym am sicrhau ein bod yn cadw ein staff. Rhoddwyd codiad cyflog o 3% i'n holl staff yn Ebrill 2022, a oedd yn gost o £170k i'r mudiad. Ar ben hyn fe roddwyd cynnydd uwch i staff ar Raddfa 1 & 2 er mwyn cefnogi staff sydd ar gyflogau isaf y mudiad. Cafwyd codiad cyflog o 8% i raddfa 1 a 7% i raddfa 2, ar gost ychwanegol o £50k. Rydym hefyd yn ystyried cynnig bonws costau byw i staff dros y gaeaf.

Ynni (NWY LPG a Thrydan)

- NWY / LPG - Cynnydd o 183% yn ein costau Nwy LPG ar gyfer 2 o'n gweryslyoedd, Glan Llyn a Llangrannog. Mae cytundeb nwy un o'n swyddfeydd ar 'fixed deal' tan Hydref 2023.
- Trydan - Rydym mewn 'fixed deal' hyd at Hydref 2023. Bydd rhaid i ni gychwyn negyddu cytundeb newydd ac rydym wedi ymrwymo yn ein cynllun net zero, i gytundebu i drefniant 100% adnewidiadol.

Ar ein haelodau a gweithgareddau

- Yn yr wythnosau diwethaf mae rhai ysgolion wedi cysylltu i ganslo eu cyrsiau preswyl, am resymau costau byw a'r costau i rieni. Mae rhai ysgolion wedi lleihau hyd y cyfnod preswyl, i leihau'r gost i rieni a gwarchodwyr.
- Mae plant wedi sôn wrth athrawon nad ydynt yn medru mynychu oherwydd bod eu rheini nhw ddim yn gallu talu am weithgareddau. Mae rhai ysgolion wedi talu am lefydd i rai plant oherwydd costau byw.
- Mae costau gweithgareddau a theithiau dyddiol i'n haelodau wedi cynyddu oherwydd costau uwch y gweithgareddau a mynediad i atyniadau.
- Mae'r Urdd wedi derbyn cyllid 'Haf o Hwyl' i ddarparu gweithgareddau. Mae'r cyllid yma yn gorffen ar ddiwedd mis Medi. Mae'r rheini wedi holi os bydd y ddarpariaeth yn parhau am ddim wedi hyn. Rydym yn ceisio parhau i gynnal y gweithgareddau a'u gwneud mor fforddiadwy â phosibl.

Pa effeithiau ydych chi'n rhagweld y bydd costau cynyddol yn eu cael ar eich sefydliad a'ch sector? I ba raddau y bydd yr effeithiau hyn yn anghildroadwy (e.e. lleoliadau'n cau, yn hytrach nag yn gyfyngiad dros dro yn unig ar weithgareddau)?

- Rydym yn rhagweld bydd llai o blant a phobl Ifanc am fynychu ein gweithgareddau a'n gweryslyoedd, oherwydd nad yw'r rheini / gwarchodwyr yn medru talu oherwydd cynnydd costau byw. Wrth i'r Urdd gweld cynnydd yn y costau, rydym yn asesu effaith chwyddiant ar ein cyllidebau, ac felly yn anorfod yn gorfod ystyried pasio'r costau ymlaen neu beidio â chynnal y gweithgaredd.

- Rydym yn bryderus am ein gallu i gadw staff, wrth i staff edrych am swyddi a chyflogau uwch. Rydym yn gwneud pob ymdrech i gadw ein cyflogau a'n amodau gwaith yn gystadleuol o fewn y farchnad swyddi.
- Mae'r Urdd wedi sefydlu cronfa 'Cyfle i Bawb' sydd yn derbyn rhoddion i gynorthwyo plant a phobl ifanc sydd yn byw mewn tldi i fynychu wythnos o wyliau haf neu hanner tymor yn un o'r gwrsylloedd.
- I sicrhau bod yr Urdd yn hygyrch ac yn gynhwysol, rydym wedi lleihau pris aelodaeth i £1, yn lle £10, i blant a phobl ifanc sydd yn derbyn prydiau bwyd am ddim.

Pa ymyriadau yr hoffech eu gweld gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU?

- Hoffem weld dulliau i atal erydiad chwyddiant ar ein grantiau, yn enwedig grantiau sydd yn pontio nifer o flynyddoedd.
- Bydd yn dda i ddatgysylltu pris tanwydd adnewidiadol o'r costau nwy.
- Hwyluso mynediad a defnydd ar safleoedd ysgol, am ddim neu ar gost gystadleuol i gynnal gweithgareddau tu allan i oriau ysgol ac ar benwythnosau. Mae'r cynlluniau Ysgolion Cymunedol Llywodraeth Cymru i'w croesawi ac edrychwn ymlaen at fod yn rhan o'r sgysiau a'r datblygiadau yma.
- Ystyried os gall grantiau e.e. gwaith ieuenctid yn y Gymraeg trwy'r 'youth support grant' cael eu cyfeirio yn syth at yr Urdd yn hytrach na'i weinyddu trwy 22 Awdurdod Lleol unigol.

I ba raddau y mae'r effeithiau a ddisgrifiwch yn wahanol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig a phobl o statws economaidd-gymdeithasol is?

- Yr effaith mwyaf bydd ar y plant a'r bobl ifanc o gartrefi incwm isel a rheini sydd yn profi gwasgfa ar gostau byw. Roedd y cyllid 'haf o hwyl' yn gymorth mawr yn yr ardaloedd difreintiedig. Roedd yn golygu bod gweithgareddau (chwaraeon a chymunedol ac ieuenctid) am ddim, yn y Gymraeg, ar gael ar draws Cymru. Wrth i'r cyllid dod i ben, mae gan yr Urdd 2 dewis, codi tal am y gweithgaredd neu ddod a'r gweithgaredd i ben. Gall golygu taw ond teuluoedd sydd yn medru fforddio sydd yn derbyn y budd o weithgareddau cymunedol allgyrsiol yn y Gymraeg.
- Gyda chynnydd yn y costau a nodwyd uchod, bydd parhad cyllid cynlluniau fel 'haf o hwyl' a 'gaeaf o les' yn allweddol. Mae ein swyddogion yn bryderus bydd carfan o siaradwyr Cymraeg newydd yn methu mynychu os bydd rhaid codi 'gwir' cost gweithgareddau.
- Pellter teithio i weithgareddau - rydym wedi profi amharodrwydd teuluoedd i deithio a chludo plant i weithgareddau. Mae gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn gwasanaethu ardaloedd daearyddol mwy. Yn nifer o'r ardaloedd ac ar gyfer gweithgareddau 'ar ôl ysgol' nid oes trafndiaeth gyhoeddus.